# Adolygiad o Fynediad Telathrebu 2026

## Dechrau gweithio ar adolygiad 2026-2031

Cyhoeddwyd 26 Mawrth 2024

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ........................................................................................................................3
2. Adolygiad o’r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol (WFTMR) 2021....................4
3. Ein dull gweithredu ar gyfer yr adolygiad nesaf............................................................10

# 1. Trosolwg

Mae’r ddogfen hon yn nodi dull gweithredu ac amserlen Ofcom ar gyfer yr Adolygiad o Fynediad Telathrebu 2026 (TAR 2026) – a fydd yn disodli’r rheoliad sy’n berthnasol i farchnadoedd telathrebu sefydlog a bennwyd gan Adolygiad o’r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol 2021 (WFTMR). Mae’r rheoliad yn ymwneud yn benodol â chysylltiadau busnes a band eang, a’r cysylltiadau a ddefnyddir gan ddarparwyr cyfathrebiadau, gan gynnwys gweithredwyr symudol, i gefnogi eu gwasanaethau. Mae’r adolygiad wedi’i gynllunio i hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau gigabit-alluog – sef y seilwaith i’r dyfodol sy’n darparu band eang cyflymach a gwell i bobl ledled y DU.

Mae ein penderfyniadau hyd yma wedi cymell ac wedi cefnogi buddsoddiad sylweddol. Ers 2021, mae Openreach a llawer o gwmnïau eraill wedi parhau i fuddsoddi mewn rhwydweithiau newydd gigabit-alluog. Bellach, mae band eang gigabit-alluog ar gael i 23.2 miliwn o gartrefi (78% o’r DU) ac mae dros 17.1 miliwn o gartrefi (57% o’r DU) nawr yn gallu cael band eang ffeibr llawn. Mae gan weithredwyr gynlluniau sylweddol o hyd ar gyfer cyflwyno rhwydweithiau dros y tair blynedd nesaf.

Ni fydd amcanion sylfaenol Ofcom yn newid, sef cymell buddsoddiad a hyrwyddo cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau. Rydym o’r farn bod natur hirdymor buddsoddiadau mewn rhwydweithiau yn gofyn am sicrwydd a sefydlogrwydd o ran rheoleiddio. Roeddem wedi cydnabod hyn yn 2021 ac felly wedi gosod disgwyliadau ynghylch rheoleiddio yn y dyfodol, sy’n fan cychwyn ar gyfer yr adolygiad hwn. Er bod yr adolygiad blaenorol yn nodi strategaeth gyffredinol 10 mlynedd, mae’r broses adolygu’r farchnad yn mynnu ein bod yn adolygu’r marchnadoedd perthnasol gan ystyried datblygiadau diweddar a darpar ddatblygiadau yn y farchnad.

Rydym yn cydnabod y camau breision a gymerwyd gan y diwydiant o ran cyflwyno rhwydweithiau ffeibr llawn, ond rydym hefyd yn cydnabod yr heriau sy’n wynebu cwmnïau sy’n cyflwyno’r rhwydweithiau hyn. Un o brif elfennau’r adolygiad hwn fydd ein dull o hyrwyddo cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau. Yn benodol, rydym am weld cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn parhau i ddatblygu lle mae hyn yn gynaliadwy a lle mae’n sicrhau manteision i ddefnyddwyr.

Rydym hefyd eisiau parhau i hyrwyddo gweithgareddau masnachol effeithlon er mwyn ymestyn y ddarpariaeth ymhellach yn yr ardaloedd sy’n weddill, sy’n anoddach eu cyrraedd. Mae ein gwaith rheoleiddio yn ategu rhaglenni cyllid cyhoeddus rydym yn disgwyl y byddant yn parhau i fod yn nodwedd amlwg o gyflwyno ffeibr yn yr adolygiad nesaf.

# 2. Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol (WFTMR) 2021

## Ein strategaeth a'n dull gweithredu cyffredinol

2.1 Strategaeth Ofcom yn yr Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol (WFTMR) 2021 oedd hyrwyddo buddsoddiad mewn rhwydweithiau gigabit-alluog gan BT (drwy Openreach) a chwmnïau eraill er mwyn hyrwyddo cystadleuaeth ar sail rhwydwaith. Roeddem eisiau annog cystadleuwyr BT i adeiladu eu rhwydweithiau eu hunain, yn hytrach na dibynnu ar fynediad rhwydwaith gan Openreach. Mewn ardaloedd yn y DU lle nad oedd yn debygol y byddai cystadleuaeth sylweddol a chynaliadwy i Openreach o ran cyflwyno rhwydweithiau sy'n cystadlu â'i gilydd yn fasnachol, roeddem am hyrwyddo buddsoddiad gan Openreach. Roeddem hefyd yn cydnabod yr angen i ddiogelu buddiannau defnyddwyr, gan gynnwys mewn perthynas â phrisiau ac ansawdd gwasanaeth, yn ystod y cyfnod pan ddatblygwyd cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau ac mewn rhannau o'r DU lle nad oedd cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn debygol o fod yn hyfyw.

2.2 Roedd y WFTMR, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, yn gosod y rheolau rheoleiddio am gyfnod o 5 mlynedd i fynd i'r afael â gwahanol faterion mewn marchnadoedd, lle canfuwyd bod gan BT safle o bŵer sylweddol yn y farchnad, gyda'r nod o hyrwyddo buddsoddiad a chystadleuaeth rhwng rhwydweithiau mewn rhwydweithiau gigabit-alluog yn unol â'n strategaeth.[1] Mae'r gwaith rheoleiddio yn edrych i'r dyfodol ('ex-ante'), yn hytrach na dibynnu ar gyfraith cystadleuaeth ôl-weithredol 'ex post', i fynd i'r afael â phryderon sy'n deillio o ymddygiad a nodwyd.

2.3 Yn y WFTMR, fe wnaethom osod tri datrysiad yn y marchnadoedd canlynol:[2]

- Mynediad cyfanwerthol at seilwaith ffisegol;
- Mynediad lleol cyfanwerthol (WLA);
- Mynediad llinellau ar brydles (Mynediad LL); a
- Chysylltedd rhyng-gyfnewid (IEC).

2.4 O dan a.84A o Ddeddf Cyfathrebiadau 2023, mae'n rhaid i Ofcom adolygu ei ddadansoddiadau o'r farchnad a'i benderfyniadau o ran pŵer sylweddol yn y farchnad o fewn 5 mlynedd ac felly rydym yn dechrau ein hadolygiad nesaf a fydd yn dod i ben erbyn mis Mawrth 2026.

[1] *Ofcom*, 2021. Datganiad: Hyrwyddo buddsoddiad a chystadleuaeth mewn rhwydweithiau ffeibr – Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol 2021-26

[2] Fe wnaethom nodi marchnad ddaearyddol genedlaethol ar gyfer seilwaith ffisegol. Ar gyfer pob un o'r marchnadoedd WLA, Mynediad LL ac IEC, fe wnaethom nodi marchnadoedd daearyddol is-genedlaethol lle mae amodau'r gystadleuaeth yn wahanol.

## Ein dull gweithredu ar gyfer datrysiadau yn y WFTMR

2.5 Yn y WFTMR, ein datrysiad am i fyny oedd mynnu bod Openreach yn darparu mynediad i'w seilwaith ffisegol – ei bibellau a'i bolion – ym mhob rhan o'r DU (ac eithrio Ardal Hull[3]). Roeddem o'r farn y byddai'r datrysiad hwn yn hybu cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau gigabit-alluog, gan ei fod yn lleihau'r gost ac yn cyflymu'r broses o gyflwyno rhwydweithiau gan gystadleuwyr Openreach.

2.6 Roedd y datrysiadau roeddem wedi'u gosod am i lawr o fynediad i bolion a phibellau hefyd yn ceisio hybu cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau gigabit-alluog. Ym mhob ardal, roeddem wedi atal Openreach rhag defnyddio strwythurau prisiau cyfanwerthol i atal cwmnïau rhwydwaith sy'n cystadlu â'i gilydd rhag adeiladu rhwydweithiau newydd, drwy wahardd gostyngiadau daearyddol penodol a mynnu ei fod yn dryloyw ynghylch telerau masnachol eraill a allai ystumio cystadleuaeth (gan ganiatáu i Ofcom asesu'r cynigion hynny cyn iddynt ddod i rym).

2.7 Roeddem yn cydnabod na fyddai cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn datblygu'n unffurf ar draws y DU. Felly, fe wnaethom fabwysiadu dull rheoleiddio ar gyfer datrysiadau a oedd yn adlewyrchu sut roeddem yn disgwyl i gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau ddatblygu mewn gwahanol ardaloedd daearyddol. Yn benodol, ar gyfer marchnadoedd sydd ymhellach i lawr y seilwaith ffisegol, roeddem yn gwahaniaethu rhwng mannau lle'r oedd cystadleuaeth sylweddol a chynaliadwy rhwng rhwydweithiau yn hyfyw, a mannau lle roeddem o'r farn nad oedd cystadleuaeth o'r fath yn debygol o ddod i'r amlwg.[4]

### Dull gweithredu mewn ardaloedd sydd â'r potensial ar gyfer cystadleuaeth sylweddol a chynaliadwy rhwng rhwydweithiau

2.8 Mewn ardaloedd lle roeddem o'r farn bod potensial i gystadleuaeth gynaliadwy a sylweddol ddatblygu (a elwir yn Ardal 2), ein hamcan oedd hybu cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau gigabit-alluog gan Openreach a darparwyr telathrebu eraill. Yn ein barn ni, yn y tymor hir, gallai cystadleuaeth effeithiol rhwng rhwydweithiau ddod i'r amlwg mewn rhai ardaloedd, a fyddai'n rhoi mwy o ddiogelwch i ddefnyddwyr.

2.9 Fodd bynnag, byddai hyn yn cymryd amser ac felly roeddem wedi ceisio diogelu defnyddwyr a modelau presennol o gystadleuaeth ymhellach i lawr yn y tymor byr. Gwnaethom hyn drwy gynnal mynediad at wasanaethau band eang cyfanwerthol a llinellau ar brydles Openreach, ond gosod prisiau ac amodau rheoleiddio eraill mewn ffordd a oedd yn cefnogi ein nodau tymor byr a thymor hir.

2.10 Yn benodol, yn y farchnad WLA, roeddem wedi canolbwyntio ein rheolaethau ar dâl ar ddarparu gwasanaeth band eang cyflym iawn lefel mynediad Openreach yn unig, sydd â chyflymder llwytho i lawr o hyd at 40Mbit yr eiliad, ond heb osod capiau prisiau ar gyfer gwasanaethau cyflymder uwch Openreach. Roeddem hefyd wedi caniatáu i Openreach godi mwy am fand eang ffeibr llawn nag y mae am wasanaethau copr sy'n cael eu rheoleiddio ar gyflymder cyfatebol (y "premiwm ffeibr"), gan adlewyrchu manteision ychwanegol ffeibr i

[3] KCOM yw'r darparwr presennol yn ardal Hull. Gwnaethom adolygu'r marchnadoedd perthnasol yn ardal Hull mewn adolygiad marchnad ar wahân.

[4] Ar gyfer marchnadoedd IEC, gwnaethom amrywio rheoleiddio ar sail nifer y darparwyr amgen i Openreach a oedd yn bresennol ym mhob cyfnewidfa BT, a chyflwyno datrysiad ffeibr tywyll lle nad oedd dewis arall yn lle Openreach.

gwsmeriaid, ac i helpu’r achos buddsoddi ymhellach. Yn y farchnad Mynediad LL, rydym yn gosod rheolaethau pris ar bob llinell ffeibr ar brydles.[5]

2.11 Gwnaethom benderfynu peidio â chynyddu'r capiau prisiau ar gyfer y gwasanaethau Mynediad WLA ac LL perthnasol mewn termau real (CPI-0%) er mwyn cymell buddsoddiad gan Openreach a rhwydweithiau amgen (altnetau), ac hefyd i ddiogelu defnyddwyr a chystadleuwyr sy’n dibynnu ar Openreach dros gyfnod yr adolygiad. Er mwyn hybu buddsoddiad mewn rhwydweithiau sy’n darparu cystadleuaeth, ni wnaethom fynnu bod Openreach yn darparu mynediad ffeibr tywyll yn y farchnad Mynediad LL.

## Dull gweithredu mewn ardaloedd lle na fyddai rhwydweithiau sylweddol a chynaliadwy yn debygol

2.12 Mewn ardaloedd eraill lle roeddem o’r farn na fyddai cystadleuaeth gynaliadwy a sylweddol yn debygol (sef Ardal 3), fe wnaethom geisio hybu buddsoddiad mewn rhwydweithiau Openreach gigabit-alluog. Roeddem hefyd wedi ceisio hyrwyddo cystadleuaeth ar sail mynediad at rwydweithiau Openreach a diogelu defnyddwyr. Yn unol â hynny, roedd ein dull o brisio band eang cyfanwerthol yn rhoi cymhellion i Openreach fuddsoddi mewn ffeibr, ac roedd angen mynediad arnom at wasanaethau band eang cyfanwerthol a llinellau ar brydles Openreach, gyda phrisiau ac amodau rheoleiddio eraill wedi’u gosod mewn ffordd i ddiogelu defnyddwyr.

2.13 Yn benodol, yn y farchnad WLA, fe wnaethom osod rheolaeth ar dâl ar sail cost sy’n caniatáu i Openreach adennill costau ei rwydwaith copr presennol a’i fuddsoddiad mewn rhwydwaith ffeibr llawn newydd, er mwyn cymell Openreach i fuddsoddi mewn rhwydwaith ffeibr gan ei fod yn rhoi mwy o sicrwydd o ran adfer costau. Darparodd Openreach ymrwymiad i gyflwyno ffeibr llawn i 3.2 miliwn o adeiladau yn Ardal 3 erbyn mis Mawrth 2026. Fe wnaethom asesu ei gostau gan ystyried hyn a phenderfynu y byddai’n gyson cysoni lefel a chwmpas y rheolaeth ar dâl i fod yr un fath â’r cap prisiau yn Ardal 2. Fe wnaethom gydnabod bod nifer o weithredwyr bach a oedd yn bwriadu buddsoddi mewn rhywfaint o Ardal 3, ac roedd y dull prisio hwn hefyd yn eu cefnogi. Yn y farchnad Mynediad LL, roeddem wedi mynnu bod Openreach yn darparu mynediad ffeibr tywyll am gost.

## Disgwyliadau o ran rheoleiddio yn y dyfodol

2.14 Fe wnaethom hefyd amlinellu sut roeddem yn disgwyl mynd ati o ran rheoleiddio ffeibr yn y dyfodol, gan ein bod wedi cydnabod bod gan y buddsoddiadau sy’n cael eu gwneud gan bob gweithredwr rhwydwaith mewn rhwydweithiau gigabit-alluog gyfnodau hirach o dalu’n ôl. Fe wnaethom ddweud nad oeddem yn disgwyl cyflwyno rheolaethau pris seiliedig ar gostau tan o leiaf 2031. Fe wnaethom hefyd ddweud ein bod yn disgwyl yr un prisiau mynediad cyfanwerthol i fod yn berthnasol ledled y DU, gan ein bod wedi disgwyl buddsoddiad parhaus, wedi ei ariannu yn fasnachol a chan y wladwriaeth, yn Ardal 2 ac yn Ardal 3 drwy gydol y cyfnod hyd at 2031. Fe wnaethom ddweud, ar ôl 2031, os yw cystadleuaeth a buddsoddiad yn dal yn y broses o ddatblygu, byddem yn disgwyl parhau i reoleiddio mewn ffordd sy’n cefnogi datblygiad parhaus cystadleuaeth a buddsoddiad. Yn olaf, fe wnaethom

[5] Ym Mynediad LL, roeddem hefyd wedi diffinio marchnad Ardal Canol Llundain (CLA) a marchnad Cyrhaeddiad Rhwydwaith Uchel (HNR). Roeddem o’r farn bod y CLA yn gystadleuol. Er ein bod wedi canfod bod gan Openreach SMP yn yr HNR, roeddem o’r farn bod presenoldeb rhwydweithiau eraill yn golygu bod angen llai o reoleiddio arnom. Yn benodol, nid oeddem wedi gosod rheolaethau ar dâl ac yn hytrach roeddem wedi gosod gofyniad bod prisiau’n deg ac yn rhesymol.

ddweud, os oes angen symud at reoleiddio yn seiliedig ar gostau yn y dyfodol, byddem yn anrhydeddu'r egwyddor o gynnig teg.

## Cymorth ar gyfer rhoi'r gorau i gopr

2.15 Mewn perthynas ag Openreach yn rhoi'r gorau i'w hen rwydwaith copr, fe wnaethom gydnabod wrth iddo osod rhwydweithiau ffeibr llawn newydd yn lle'r rhwydwaith copr wedi dyddio, ni ddylai orfod wynebu costau diangen wrth redeg dau rwydwaith cyfochrog. Fe wnaethom ymgorffori rhai darpariaethau yn ein datrysiadau marchnad WLA i gefnogi'r broses o roi'r gorau i ddefnyddio copr, drwy symud ffocws rheoleiddio o gopr i ffeibr llawn yn raddol.

## Cynnal ansawdd gwasanaeth

2.16 Er mwyn sicrhau bod Openreach yn darparu gwasanaeth o'r safon sy'n ofynnol gan gwsmeriaid, fe wnaethom gadw'r rheolau a oedd eisoes yn bodoli yn fras, gyda golwg ar ba mor gyflym y dylai Openreach wneud y gwaith gosod a thrwsio.

# Ein gwaith ers y Datganiad WFTMR

2.17 Yn Natganiad WFTMR, roeddem yn cydnabod y byddai angen i ni fonitro'r farchnad a gweithredu ein datrysiadau i sicrhau ein bod yn aros ar y trywydd iawn i gyflawni ein hamcanion.

## Datrysiad ar gyfer mynediad i bibellau a pholion

2.18 Mae mynediad i bibellau a pholion Openreach yn rhan allweddol o strategaeth Ofcom i gefnogi buddsoddiad altnet. Fodd bynnag, roeddem yn cydnabod bod angen datblygu rhagor ar y cynnyrch yr oedd Openreach yn eu cyflenwi i'r diwydiant, a'r prosesau a ddefnyddiwyd i'w darparu, er mwyn sicrhau bod modd eu defnyddio ar raddfa fawr. Rydym wedi bod yn gweithio drwy'r materion hyn gydag Openreach, yr OTA2[6] a'r diwydiant ac mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud. Mae'r cynnyrch hyn bellach yn cael eu defnyddio ar raddfa fawr gan y diwydiant, gyda 169 o ddarparwyr wedi'u cofrestru i ddefnyddio pibellau a pholion Openreach, ac archebion yn cael eu rhoi ar gyfer 160,000km o bibellau (yn erbyn cyfanswm rhwydwaith pibellau o 486,000km) ac 1.2 miliwn o bolion (allan o gyfanswm o 4.1 miliwn).[7] Rydym yn parhau i ymateb i bryderon a godwyd gyda ni.

## Cynigion prisiau Openreach

2.19 Yn y WFTMR fe wnaethom gyflwyno gofyniad bod Openreach yn rhoi o leiaf 90 diwrnod o rybudd o gyflwyno telerau masnachol penodol (fel disgownt mewn niferoedd) a allai atal darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd masnachol rhag defnyddio rhwydweithiau sydd mewn cystadleuaeth, a llesteirio buddsoddiad drwy hynny. Ers hynny, rydym wedi ystyried dau gynnig o dan y broses hon gan Openreach (Equinox ac Equinox 2). Ar ôl asesu pob un o'r cynigion a barn rhanddeiliaid, penderfynodd Ofcom beidio â'u hatal rhag cael eu cyflwyno.

---

[6] Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Telathrebu (OTA2) yn sefydliad sy'n annibynnol ar Ofcom a'r diwydiant, sy'n gyfrifol am oruchwylio cydweithrediad rhwng darparwyr telathrebu.

[7] *Ofcom*, 2023. Cysylltu'r Gwledydd 2023.

Rydym yn parhau i fonitro effaith y cynigion hyn ar ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd o bryd i'w gilydd.

2.20 Ochr yn ochr â'n hasesiad o delerau'r cynnig Equinox 2, roeddem hefyd wedi ystyried pryderon rhanddeiliaid ynghylch lefel y prisiau o dan y cynnig hwnnw ac arferion Openreach o ran trafod a datblygu disgowntiau gyda darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd. Fodd bynnag, ni wnaethom nodi ar y pryd unrhyw bryderon a fyddai'n ein harwain i ymchwilio ymhellach.

## Uned Monitro Openreach

2.21 Rydym yn cydnabod y rôl sylweddol y mae Openreach yn ei chwarae yn y marchnadoedd hyn, ac mae ei ymddygiad yn allweddol o ran sicrhau bod cystadleuaeth yn gweithredu'n deg i bob adeiladwr rhwydwaith. Am y rheswm hwn, yn ein hadroddiad monitro blynyddol yn 2021 fe wnaethom gyhoeddi, wrth symud ymlaen, bod cwmpas gwaith Uned Monitro Openreach ('OMU') yn cynnwys materion sy'n ymwneud â chanlyniadau ehangach y WFTMR (yn ogystal â monitro cydymffurfiad Openreach a BT â'r Ymrwymiadau).[8] Mae hyn yn golygu monitro gweithgareddau Openreach mewn perthynas â buddsoddi, canlyniadau i ddefnyddwyr a chystadleuaeth.

2.22 Mynegodd rhanddeiliaid yn y diwydiant bryderon am gynlluniau adeiladu ffeibr Openreach a 'goradeiladu'. Yn ystod 2022 buom yn ymgysylltu'n fanwl iawn ag Openreach i ddeall yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau adeiladu penodol. Ni welsom unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod Openreach wedi cyflwyno ei rwydwaith ffeibr i dargedu neu niweidio cystadleuwyr, neu nad oedd y penderfyniadau adeiladu hyn yn fasnachol resymol.[9] Fodd bynnag, rydym yn parhau i fonitro cynlluniau a phenderfyniadau adeiladu Openreach.

## Ymchwilio i fethiant Openreach i fodloni safonau Ansawdd Gwasanaeth yn 2022/23

2.23 Mae hefyd yn bwysig ein bod yn sicrhau bod Openreach yn darparu ei wasanaethau i safon dda, ac yn y WFTMR rydym yn gosod amodau ansawdd gwasanaeth er mwyn i Openreach gyflawni hyn. Bwriedir i'r rhwymedigaethau fod yn llai, a'u bod yn cael eu bodloni ym mhob achos, heblaw amgylchiadau eithriadol iawn. Rydym yn monitro ei berfformiad yn erbyn y rhwymedigaethau hyn a byddwn yn ymchwilio i achosion lle nad yw'n bodloni'r safonau gofynnol. Ar 18 Mawrth 2024, cwblhaodd Ofcom ymchwiliad ar ei liwt ei hun i gydymffurfiad Openreach â'i rwymedigaethau ansawdd gwasanaeth yn y marchnadoedd Mynediad LL a WLA yn ystod 2022/23. Gwelsom fod Openreach wedi mynd yn groes i amodau ei bŵer sylweddol yn y farchnad drwy fethu â chyflawni tri o'i rwymedigaethau.[10]

---

[8] *Ofcom*, 2021. Adroddiad monitro blynyddol Ofcom ar Openreach. Ym mis Mawrth 2017, rhoddodd BT wybod i Ofcom am ei ymrwymiadau gwirfoddol i ddiwygio Openreach ymhellach, gan ei wneud yn gwmni ar wahân gyda'i staff, ei reolwyr, ei bwrpas a'i strategaeth ei hun. Yn wreiddiol, sefydlodd Ofcom Uned Monitro Openreach (OMU) i fonitro cydymffurfiad Openreach a BT â'r Ymrwymiadau. Gweler hefyd *Ofcom*, Mawrth 2023. Adroddiad monitro Openreach.

[9] *Ofcom*, 2022. Llythyr agored i'r diwydiant am bryderon a godwyd gydag Ofcom sy'n gysylltiedig ag adeiladu Openreach.

[10] Fe wnaethom ystyried nifer o ffactorau a oedd yn golygu na wnaethom roi cosb neu gorfodi unrhyw gywiriadau eraill y tro hwn. *Ofcom*, 2024. Ymchwilio i berfformiad ansawdd gwasanaeth Openreach o ran mynediad llinellau ar brydles a mynediad lleol cyfanwerthol yn 2022/23

## Ardaloedd eraill

2.24 Yn ogystal â'r camau gweithredu penodol sy'n deillio o'n hadolygiad diwethaf, mae ein gwaith yn fwy cyffredinol wedi canolbwyntio ar gefnogi ein hamcanion o ran cyflwyno rhwydweithiau gigabit-alluog:

- **Gwybodaeth i ddefnyddwyr band eang:** Wrth i'r broses o gyflwyno rhwydweithiau gigabit-alluog barhau, mae gan ddefnyddwyr ddewis cynyddol o rwydweithiau a gwasanaethau i ddewis ohonynt. Mae'n bwysig bod ganddynt ddigon o wybodaeth i wneud y penderfyniad iawn ar eu cyfer. Rydym hefyd eisiau cefnogi defnyddwyr i symud o dechnolegau hŷn i dechnolegau mwy newydd yn hyderus, gan gynnwys o fand eang sy'n seiliedig ar gopr i fand eang ffeibr llawn. Ym mis Rhagfyr 2023, fe wnaethom gyhoeddi datganiad yn nodi ein penderfyniad i helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau mwy gwybodus.[11] Mae'n egluro sut a phryd rydym yn credu y dylai darparwyr band eang ddweud wrth bobl am y dechnoleg sylfaenol sy'n cael ei defnyddio i ddarparu eu gwasanaeth. Ochr yn ochr â'r datganiad, mae Ofcom wedi cyhoeddi canllawiau i sicrhau bod darparwyr yn rhoi'r wybodaeth hon i ddefnyddwyr mewn ffordd glir a diamwys.
- **Newid Un Cam:** Daeth rheolau newydd i rym ar 3 Ebrill 2023 a oedd yn mynnu bod darparwyr yn gweithredu proses 'Newid Un Cam' (OTS) ar gyfer cwsmeriaid preswyl sy'n dymuno newid eu gwasanaethau llinell dir neu fand eang. Mae'r diwydiant wedi gohirio'r broses o gyflwyno OTS yn sylweddol, gyda dyddiad mynd yn fyw newydd yn cael ei gyhoeddi ar 12 Medi 2024. Pan gaiff ei gyflwyno, bydd OTS yn gwneud y broses o newid band eang yn gyflymach, yn haws ac yn fwy dibynadwy. Felly, bydd darparwyr gwasanaeth yn rheoli'r holl broses symud i gwsmeriaid newydd sy'n symud rhwng gwahanol rwydweithiau neu dechnolegau.
- **Monitro'r gwaith adeiladu gwirioneddol a'r gwaith sydd wedi'i gynllunio:** Rydym yn parhau i fonitro datblygiadau yn y farchnad ac yn adrodd ar hyn yn ein cyhoeddiad Cysylltu'r Gwledydd. Fel rhan o Cysylltu'r Gwledydd, rydym hefyd yn casglu gwybodaeth am osodiadau rhwydweithiau cynlluniedig sy'n cefnogi gwasanaethau band eang cyflym iawn. Cafodd ein hadroddiad diweddaraf ar leoliadau rhwydweithiau gwirioneddol ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023, a chyhoeddwyd ein hadroddiad diwethaf ar leoliadau rhwydwaith cynlluniedig ei gyhoeddi ym mis Hydref 2023.[12] Fel y trafodir ymhellach isod, mae'r adroddiadau hyn yn dangos bod darpariaeth band eang ffeibr llawn a band eang gigabit-alluog yn tyfu'n gyflym.
- **Ymgysylltu â rhanddeiliaid:** Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â rhanddeiliaid gan gynnwys darparwyr cyfathrebiadau, altnets, buddsoddwyr, gweithredwyr rhwydweithiau symudol, grwpiau defnyddwyr a'r llywodraeth.

---

[11] *Ofcom*, 2023. Gwella gwybodaeth am fand eang i gwsmeriaid

[12] *Ofcom*, 2023. Cysylltu'r Gwledydd 2023 and *Ofcom*, 2023. Cysylltu'r Gwledydd - Gosodiadau Rhwydwaith Cynlluniedig

# 3. Ein dull gweithredu ar gyfer yr adolygiad nesaf

3.1 Rydym yn bwriadu parhau â'r un amcanion o gymell buddsoddiad a hyrwyddo cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn yr adolygiad nesaf. Rydym o'r farn bod natur hirdymor buddsoddiadau mewn rhwydweithiau yn gofyn am sicrwydd a sefydlogrwydd o ran rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys parhau i gefnogi ac anrhydeddu'r egwyddor o gynnig teg.[13] Roeddem wedi cydnabod hyn yn 2021 ac felly wedi gosod disgwyliadau ynghylch rheoleiddio yn y dyfodol, sy'n fan cychwyn ar gyfer yr adolygiad hwn.

3.2 Er bod yr adolygiad blaenorol yn nodi strategaeth gyffredinol 10 mlynedd, mae'r broses adolygu'r farchnad yn mynnu ein bod yn adolygu'r marchnadoedd perthnasol gan ystyried datblygiadau diweddar a darpar ddatblygiadau yn y farchnad.

3.3 Ers 2021 mae buddsoddiad sylweddol wedi bod mewn defnyddio rhwydweithiau gigabit-alluog. Yn y WFTMR, fe wnaethom ddweud ein bod yn disgwyl i weithgareddau masnachol ddarparu rhwydweithiau gigabit-alluog ar gyfer o leiaf 80% o adeiladau'r DU erbyn mis Mawrth 2026. Ers 2021, mae Openreach a llawer o gwmnïau eraill wedi parhau i fuddsoddi mewn rhwydweithiau newydd gigabit-alluog. Ym mis Medi 2023, roedd gan 78% o adeiladau'r DU fynediad at rwydwaith gigabit-alluog, gyda 57% o adeiladau'r DU yn gallu cael mynediad at rwydwaith ffeibr, i fyny o 40% a 24% ym mis Mai 2021. Mae darpariaeth ffeibr llawn ym mhob un o'r pedair gwlad hefyd wedi codi ymhell dros 50%.[14]

3.4 O fis Mai 2023, mae gan weithredwyr gynlluniau sylweddol o hyd ar gyfer cyflwyno rhwydweithiau dros y tair blynedd nesaf, gyda darpariaeth ffeibr llawn o bosibl yn cyrraedd hyd at 91% o adeiladau erbyn 2026, a darpariaeth gigabit-alluog o bosibl yn cyrraedd 94%.[15] Rydym yn cydnabod na fydd yr holl gynlluniau hyn yn dwyn ffrwyth, wrth i gynlluniau ddatblygu mewn ymateb i ddatblygiadau gan weithredwyr eraill ac amodau ehangach y farchnad, gan gynnwys amgylchedd macro-economaidd mwy heriol. Serch hynny, mae'r cynlluniau'n arwydd o hyder gweithredwyr rhwydweithiau i barhau i fuddsoddi mewn cyflwyno ffeibr dros y blynyddoedd nesaf.


---

[13] Mae hyn yn golygu, wrth osod unrhyw reolaethau ar dâl yn y dyfodol, ein polisi fyddai caniatáu i BT gadw unrhyw enillion sy'n fwy na'i gost cyfalaf y mae wedi'i hennill hyd at y pwynt hwnnw, yn ogystal â sicrhau ei fod yn gallu ennill ei gostau cyfalaf wrth symud ymlaen.

[14] *Ofcom*, 2021. Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd: Haf 2021 ac *Ofcom*, 2023. Cysylltu'r Gwledydd 2023

[15] Bob blwyddyn, rydyn ni'n casglu cynlluniau gosodiadau'r gweithredwyr rhwydwaith sy'n edrych dair blynedd i'r dyfodol. Mae'n bosib bod bwriad gweithredwyr i adeiladu rhwydweithiau yn y dyfodol ar gamau gwahanol yn y broses gynllunio; efallai bod rhai cynlluniau gosod eisoes yn mynd rhagddynt, ac efallai nad yw rhai eraill wedi cael cymeradwyaeth ariannol eto i fwrw ymlaen. Mae edrych ar gynlluniau 'Hyder Uchel' yn unig (h.y. cynlluniau sydd wedi cyrraedd y cam dylunio lefel isel ac y mae cyllid wedi'i neilltuo ar ei gyfer) yn dangos darpariaeth ffeibr llawn a allai gyrraedd 83% o eiddo erbyn mis Mai 2026. *Ofcom*, 2023. Cysylltu'r Gwledydd - Gosodiadau Rhwydwaith Cynlluniedig

**Ffigur 1: Darpariaeth ffeibr llawn a darpariaeth gigabit-alluog (gwirioneddol ac arfaethedig)**




*Ffynhonnell: Cysylltu'r Gwledydd. Dim ond cynlluniau Hyder Uchel sydd wedi'u cynnwys yn y gweithgareddau arfaethedig.*

3.5 O ystyried faint o waith adeiladu sy'n ddisgwyliedig erbyn 2026, mae'n bosibl y bydd llai o adeiladu yn ystod y cyfnod adolygu nesaf. Felly, er bod ein hamcanion yn cynnwys parhau i gymell buddsoddiad mewn rhwydweithiau, ffocws allweddol yr adolygiad hwn fydd ein dull o hyrwyddo cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau. Yn benodol, rydym am weld cystadleuaeth gynaliadwy a fydd yn y pen draw yn sicrhau manteision i ddefnyddwyr.

3.6 Rydym yn ymwybodol ei bod yn cymryd amser i gystadleuwyr gael eu traed tanynt ar ôl i rwydwaith gael ei ddarparu a'u bod yn wynebu heriau sylweddol o ran goresgyn manteision hirhoedledd Openreach. Wrth ystyried unrhyw atebion yn yr adolygiad hwn, bydd angen i ni hefyd sicrhau nad ydynt yn arwain at gostau i ddefnyddwyr sy'n drech na'r manteision rydym yn disgwyl eu datblygu yn y tymor hwy.

3.7 Mae cwmnïau rhwydwaith yn troi eu sylw fwyfwy at annog defnyddwyr i fanteisio ar y gwasanaethau ffeibr newydd sydd ar gael. Amcangyfrifodd Ofcom ym Mai 2023 o'r holl adeiladau lle'r oedd gwasanaethau rhwydweithiau ffeibr llawn ar gael, 28% oedd yn manteisio ar y gwasanaethau hynny.[16] Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n manteisio ar y gwasanaethau hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl gweithredwr, gyda rhai gweithredwyr yn sicrhau bod mwy na 30% yn manteisio arno, ac eraill yn defnyddio llai na 10%.[17] Mae rhai altnetau yn cynnig eu gwasanaethau manwerthu eu hunain, a dim ond eu rhwydweithiau cyfanwerthol y mae eraill yn eu cynnig. Ar gyfer yr olaf, mae gallu denu darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd manwerthu yn ffactor pwysig wrth bennu lefel y gystadleuaeth a wneir gan y gweithredwyr hyn.

3.8 Ar ben hynny, er bod altnetau wedi cael eu darparu i tua thraean o'r DU, mae'r gwaith adeiladu wedi bod yn fwy tameidiog nag yr oeddem yn ei ddisgwyl, gyda dros 100 o altnetau

[16] *Ofcom*, 2023. Cysylltu'r Gwledydd 2023

[17] Mae'n anodd canfod union ffigurau ar hyn o bryd am y niferoedd sy'n manteisio ar ffeibr llawn, oherwydd po fwyaf o amser sydd ers i ffeibr llawn fod ar gael, y mwyaf tebygol yw bod pobl yn manteisio arno.

yn darparu rhwydweithiau ffeibr yn y DU. Nifer cymharol fach o'r altnetau hyn sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu altnet hyd yma, gyda chynffon hir o altnetau llai. O ystyried cymaint o gwmnïau sydd wedi ymuno â'r farchnad, mae'n debygol y bydd llawer o gyfuno yn y farchnad dros y blynyddoedd i ddod. Er nad oes sicrwydd eto am yr amseriad na sut y gweithredir hyn, rydym yn effro i'r posibilrwydd y gallai helpu'r darparwyr cyfunol hynny i ddod yn gystadleuwyr cryfach. Yn ein hasesiad o gystadleuaeth, byddwn nid yn unig yn ystyried presenoldeb rhwydweithiau sy'n cystadlu ag Openreach ond, yn bwysig iawn, lefel y cyfyngiadau cystadleuol a osodir ar Openreach a'u gallu i gystadlu'n gynaliadwy.

3.9 Mae'r gwaith o gyflwyno rhwydweithiau gan Openreach ac altnetau, ers 2021 ac yn yr arfaeth hyd at 2026, wedi cael ei wasgaru ar draws ardaloedd trefol a gwledig. Yn yr adolygiad hwn, rydym eisiau dal ati i hyrwyddo gweithgareddau masnachol effeithlon er mwyn ymestyn y ddarpariaeth ymhellach yn yr ardaloedd sy'n weddill, sy'n anoddach eu cyrraedd. Mae gwaith rheoleiddio Ofcom yn ategu rhaglenni cyllid cyhoeddus rydym yn disgwyl y byddant yn parhau i fod yn nodwedd amlwg o gyflwyno ffeibr yn yr adolygiad nesaf.[18]

3.10 Bydd angen i ni hefyd ystyried y gwaith o ddisodli rhwydwaith copr Openreach a chau'r cyfnewidfeydd ar ôl hynny. [19] Rydym yn dal i gefnogi gwaith Openreach i gefnu ar ei hen rwydwaith copr. Bydd ein dull rheoleiddio yn hyn o beth yn ystyried sut mae sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr, o ran symud yn gyflym ac yn ddidrafferth i'r gwasanaethau gwell sydd ar gael ar rwydweithiau gigabit-alluog, ac o ran hyrwyddo cystadleuaeth.

3.11 Yn olaf, pan fydd yn briodol cynnal y datrysiadau presennol, byddwn yn ystyried a oes angen gwneud newidiadau i sicrhau bod y datrysiadau hyn mor effeithiol â phosibl o ran cyflawni ein hamcanion. Mae hyn yn cynnwys edrych ar fynediad at bolion a phibellau fel ein datrysiad sylfaenol ymhellach i fyny, ffeibr tywyll ac atebion eraill ym marchnadoedd Mynediad LL ac IEC, yn ogystal â safonau ansawdd gwasanaeth.

## Y camau nesaf

3.12 Rydym yn cynnal trafodaethau cychwynnol gyda rhanddeiliaid wrth i ni ddechrau llunio'r adolygiad hwn. Byddwn yn parhau i ymgysylltu wrth i ni ddechrau casglu tystiolaeth, gan gynnwys defnyddio ein pwerau ffurfiol i gasglu gwybodaeth.

3.13 Fel y nodir yn ein Cynllun Gwaith arfaethedig ar gyfer 2024/25,[20] rydym yn gobeithio cyhoeddi ein prif ymgynghoriad ar gynigion i newid y rheoliad ar ddechrau 2025.

3.14 Byddwn yn pwyso a mesur yn ofalus y dystiolaeth a gasglwn ac yn cynnal dadansoddiad manwl o'r wybodaeth sydd ar gael i ni. Byddwn yn ystyried yr ymatebion a gawn gan

[18] Drwy raglen Prosiect Gigabit, mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwario tua £1.2bn erbyn 2025 mewn cymorthdaliadau i gyflwyno'r gwasanaethau yn yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd ledled y DU. Daw hyn fel rhan o ymrwymiad ariannol o £5 biliwn i ymestyn y ddarpariaeth y tu hwnt i'r hyn y disgwylir ei gyflawni drwy weithgareddau masnachol. Mae hyn ochr yn ochr â rhaglenni buddsoddi band eang eraill gan lywodraethau datganoledig yng ngwledydd y DU, gan gynnwys rhaglen Cyflymu Cymru yng Nghymru, rhaglen Reaching 100% (R100) yn yr Alban, a Project Stratum yng Ngogledd Iwerddon.

[19] Yn ddiweddar, gwnaeth Openreach ymgynghori ar ei gynllun i gau 105 o gyfnewidfeydd cyn 2030, cyn dechrau rhaglen ehangach ddisgwyliedig ddechrau'r 2030au. Yn yr hirdymor, mae Openreach yn bwriadu lleihau nifer y cyfnewidfeydd o'r tua 5,600 presennol i oddeutu 1,000.

[20] *Ofcom*, 2023 Ymgynghoriad: Cynllun Gwaith arfaethedig Ofcom ar gyfer 2024/25

randdeiliaid i'n hymgynghoriad(au) a'n nod yw cyhoeddi datganiad yn cynnwys ein penderfyniadau terfynol ddechrau 2026.

3.15 Mewn ffrwd waith ar wahân, byddwn hefyd yn cynnal adolygiad o farchnadoedd yn ardal Hull. Yn ein hadolygiad diwethaf, fe wnaethom ddiffinio nifer o farchnadoedd yn Hull a chanfod bod gan KCOM bŵer sylweddol ym mhob un o'r marchnadoedd hyn. Byddwn yn adolygu'r marchnadoedd hyn eto ac, ar ôl ymgynghori, ein bwriad yw cyhoeddi datganiad yn Hydref 2026.

3.16 At hynny, yn 2021 gwnaethom adolygu marchnadoedd llais cyfanwerthol a gosod rheoliadau hyd 2026. Y marchnadoedd hyn sy'n sail i'r ddarpariaeth teleffoni i ddefnyddwyr preswyl a busnes. Byddwn yn adolygu'r marchnadoedd hyn eto gyda'r bwriad o gyhoeddi ymgynghoriad yn ystod gwanwyn 2025 a datganiad cyn mis Mawrth 2026.[21]

[21] Mae'n bosib hefyd y byddwn yn ymgynghori yn 2024/25 ar farchnadoedd SMS cyfanwerthol, ar ôl gwneud gwaith monitro pellach ar y farchnad.